# CYNGOR CYMUNED LLANBADARN FAWR

**COFNODION** cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd dros we-gamera oherwydd y Coronafeirws ar **DDYDD LLUN, 14 Ebrill, 2021.**

**6.30yh. i 7.45yh**

**Cynghorwyr a gymerodd ran:**

**Linda Keeler (Cadeirydd), Ben Davies, Gareth Davies, Martin Davies, David Greaney, Mark Hemingway, Peter Evans, Tom Kendall, Andrew Loat, Dave Pain, Dafydd Pritchard.**

**Mrs Rhian Rowlands – Clerc**

**1) MATERION PERSONOL AC YMDDIHEURIADAU:**
Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. M Woolfall-Jones.

**2. DATGELU BUDDIANT:**
I'w nodi yn y cofnodion.

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD:**
Dim aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

**4. UNRHYW GWYNION AT SYLW'R HEDDLU:**
a) Dim

**5. CADARNHAU COFNODION Y CANLYNOL:**
i. P**enderfynwyd** bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2021; 15 Mawrth 2021 – cyfarfod cyhoeddus; 15 Mawrth 2021 a 24 Mawrth 2021 yn gofnod gwir.

**6. MATERION YN CODI O'R COFNODION UCHOD:**

**COFNODION 8 MAWRTH, 2021:**

**i. Cofnod 4a - Croesfan Sebra:**
Nododd y Clerc bod y ddau gylchdro bach yn cael eu tacluso a'r groesfan sebra yn cael ei hail-beintio yr un pryd.

**ii. Cofnod 4b – Parcio Peryglus ar Riw Briallu:**
Yn aros i glywed oddi wrth y PCSOs.

**iii. Cofnod 6ii – Cwlfer:**
Roedd y Cyng. Matthew Woolfall Jones wedi dweud wrth y Cadeirydd mai'r Asiantaeth Cefnffyrdd sy'n gyfrifol ac y byddai'n rhoi gwybod i ni am y datblygiadau diweddaraf.

**iv. Cofnod 6iii - Llywodraethwr Yr Ysgol Gymraeg:**
Doedd y Cyng. Ben Davies heb glywed dim oddi wrth yr Ysgol. **Penderfynwyd** rhoi sylw i'r mater eto yn y cyfarfod nesaf.

**v. Cofnod 8ii. GAG –** Bu'r Cyng. D Pain yn y cyfarfod ac mae wedi cael ei gyfethol ar y pwyllgor a bydd yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.

**vi. Cofnod 8v – Gwaredu rwbel ar Gae Llety Parc:**
Nodwyd y diweddariadau canlynol:

i) byddai aelod o Gyngor Sir Ceredigion yn ymweld â'r safle a byddai'r Cyng. G Davies yn cael gwybod am yr asesiad cychwynnol o fewn 15 diwrnod ar ôl yr ymweliad safle. Fodd bynnag, oherwydd ôl-groniadau asesiadau o ganlyniad i COVID 19 fe fyddai oedi.

ii) ymateb wedi'i dderbyn oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru yn hysbysu'r Cyng. G Davies bod rhaid i fusnes gofrestru i gael Trwydded Cludwyr Gwastraff haen uchaf.

iii) CNC methu â gweld bod ganddynt drwydded.

iv) roeddent yn nodi nad oedd ganddynt dystiolaeth i awgrymu bod y deunyddiau a

gedwir ar hyn o bryd yn Llety Parc yn llygredig. Pe medrem roi tystiolaeth i'r gwrthwyneb, dylem rannu hyn â nhw a bydden nhw'n ymchwilio ymhellach. Roeddent hefyd yn nodi bod cyfyngiadau ar y maint a'r math o wastraff y gellid ei ddefnyddio dan y rheoliadau a bod cyfyngiad ar yr amser y gellid storio'r gwastraff cyn bod rhaid ei ddefnyddio;

vii. Byddai arolygwr mwynau o Gaerfyrddin yn dod i gael golwg ar y cae;
viii. Byddai CNC yn ymchwilio i'r mater;
ix. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad ar y safle yn ystod yr wythnos ddiwethaf;
x. Roedd y rwbel a ollyngwyd ger y byngalo nesaf at y cae wedi cael ei lefelu.

**7. MATERION CYNLLUNIO:**

a) **A 210262**-Cilffordd, 2 Teras St George, Llanbadarn Fawr - Estyniad un llawr arfaethedig. Dim sylwadau.

**8. GOHEBIAETH:**

i. Cyngor Sir Ceredigion – Cau Ffordd U1079 dros dro
ii. Un Llais Cymru –
 a) Hyfforddiant – dangosodd dau aelod ddiddordeb mewn cymryd rhan
 b) Aelodaeth Un Llais Cymru 2021-2022 - £333.00
 **Penderfynwyd** ymuno ag Un Llais Cymru
 c) Cofnodion Pwyllgor Ardal Ceredigion – i'w hanfon ymlaen at y Cynghorwyr.
iii. Cyngor Sir Ceredigion - Nifer o hysbysiadau'n ymwneud ag Etholiadau Senedd Cymru.
iv. Zurich Insurance - £2248.61 – P**enderfynwyd** talu yswiriant Zurich.
v. Pensiwn Dyfed – Trefniant Bandio Cyfraniadau ar gyfer 2021-2022.
vi. Prosiect Ehangu a Chynaliadwyedd Biosffer Dyfi - Yn gofyn am ddau gynrychiolydd o GC Llanbadarn Fawr i'r cyfarfod a gynhelir ar 21ain Ebrill.
 P**enderfynwyd:**
 a) Gan fod y Cyng. G Davies wedi'i enwebu eisoes fel cynrychiolydd y Cyngor, y byddai ef yn mynychu'r cyfarfod rhithiol;
 b) Enwebwyd y Cyng. A Loat hefyd fel cynrychiolydd.
vii. Cyngor Sir Ceredigion - Amryw bapurau ymgeiswyr Etholiad Senedd Cymru ar 6 Mai - i'w harddangos yn yr Hysbysfwrdd.

**9. ARIANNOL**

**a) Cyfrifon wedi'u talu / i'w talu:**

| Rhif y Siec | Taledig i | Swm £ |
|---|---|---|
| 102446 | Elenid N Hughes | 79.65 |
| 102447 | Tegwen Jones | 1004.79 |
| 102448 | Cyllid a Thollau EM | 65.78 |
| 102449 | Zurich Insurance | 2248.61 |
| 102450 | Un Llais Cymru | 333.00 |

**b) Ffigyrau hyd at 22ain Mawrth, 2021:**

P**enderfynwyd** derbyn y cyfrifon hyd at 22ain Mawrth 2021.

**10) CYFETHOL CYNGHORYDD AR WARD PADARN:**

I'w osod ar yr agenda nesaf.

**11) TRAFOD COEDEN GOFFA'R DIWEDDAR GYNGHORYDD P JAMES**

Ar ôl trafod, **penderfynwyd:**
a) newid y goeden ar y triongl sy'n arwain at Filfeddygfa Ystwyth am goeden Blodau Ceirios;
b) gosod ffabrig rhwystro chwyn;

c) gwario £150 am lwyni tua 3 - 4 troedfedd o uchder;
d) gofyn i Marc Lewis am ddyfynbris am godi a symud y goeden sydd yno ar hyn o bryd;
e) Byddai'r Cyng. L Keeler a'r Cyng. D Greaney yn siarad â pherchennog y tŷ gerllaw'r man plannu;
f) Bydd y Cyng. L Keeler yn cysylltu â Mr P Lloyd ynglŷn â phlac i'w roi ar y goeden.

**12) CAE CHWARAE A'R PARC CHWARAE:**

Ar ôl trafod, **penderfynwyd**:

a) gofyn i Mr P Hemming wagio'r biniau a symud y flanced oedd wedi'i gadael yn y parc chwarae;
b) gofyn i Mr P Hemming am ddyfynbris ar gyfer clirio'r biniau bob pythefnos;
c) sefydlu ffiniau'r cae chwarae trwy ofyn i Alun Thomas & John am gopi o'r gweithredoedd;
d) y Cyng. D Pain i fesur ar gyfer ffens gwrth-ddringo 6 troedfedd o'r gât i waelod y cae, a chael dyfynbris;
e) Byddai'r Cyng. M Davies yn gwneud ymholiadau ynghylch rhwymedigaeth statudol o ran y ffensio a'r rheilffordd.
f) Gofynnodd y Cyng. D Pain am farn y Cyngor ynglŷn â phlannu coed ar hyd ymyl y rheilffordd gan ddefnyddio rhywogaethau lleol ac edrych ar hadau y gellid eu defnyddio ar gyfer plannu yn yr ardal
g) ysgrifennu at Padarn United ynglŷn â'r pyst gôl - maent yn berygl i iechyd a gan mai Padarn United yw perchnogion y pyst gôl gofynnir iddynt eu symud yn y mis nesaf gan eu bod yn anniogel ac y bydden ni fel Cyngor yn eu symud ar ôl yr adeg hon.